

BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD I:	<u>CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR</u>
PWNC:	<u>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u> <u>- 7 MAWRTH 2019</u>
ADRODDIAD GAN:	<u>SWYDDOG GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u>

PRESENNOL: CYNGHORYDD M. CROSS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr J. Millard
J. Collins
M. Day
K. Hayden
J. Holt
H. McCarthy, B.A. (Anrh)
J.P. Morgan
L. Parsons
T. Sharrem

HEFYD: **Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu**

Cynghorwyr S.C. Thomas
H. Trollope
K. Rowson
P. Edwards

A: Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Datblygu Sefydliadaol - Cyflogres/Iechyd a
Diogelwch

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
1.	<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u> Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	

2.	<p><u>YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr N. Daniels, L. Elias, M. Holland a J. Wilkins.</p>	
3.	<p><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.</p>	
4.	<p><u>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u></p> <p>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn cynnwys:-</p> <p><i><u>Adroddiad Cynnydd Trefniadau Democrataidd</u></i></p> <p>Cyfeiriodd Aelod at y paragraff olaf ond un ar dudalen 8 y cofnodion a dywedodd y dylai hyn fod wedi ei gynnwys fel pwynt gweithredu.</p> <p>Mewn ymateb cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y caiff yr wybodaeth a roddir ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd</p>
5.	<p><u>ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Datblygu Sefydliadol sy'n hysbysu Aelodau am y manylion a gynhwysir o fewn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2019/20, a roddir yn Atodiad 1.</p> <p>Siaradodd y swyddog am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Mae'r bwlch rhwng lefel y gydnabyddiaeth ariannol sylfaenol ar gyfer Aelodau etholedig a dangosyddion perthnasol o gynnydd mewn incwm a</p>	

chostau dangosyddion byw wedi parhau i dyfu. Yn 2017 gweithredodd y Panel i gau'r bwlch a chyfyngu cyfradd erydu. Er fod cyfyngiadau'n dal i fod ar gyllid ar gyfer y sector cyhoeddus, ystyriodd y Panel fod cyfiawnhad i'r cyflog sylfaenol a phenderfynwyd cynyddu'r cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau etholedig gan £268 y flwyddyn yn weithredol o fis Ebrill 2019. Penderfynodd y Panel hefyd y byddai'r terfyn ar nifer y cyflogau uwch sy'n daladwy yn parhau yn eu lle, ac i Flaenau Gwent mae hyn yn 17.

Penderfynodd y Panel y byddai cynnydd i gyflogau uwch Band 1 a Band 2 sy'n daladwy i'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd ac Aelodau Gweithredol o £800, yn cynnwys y cynnydd o £268 yn y cyflog sylfaenol y bydd pob Aelod yn ei dderbyn.

Yng nghyswllt Cadeiryddion Pwyllgorau, lle caiff y swyddi hyn eu talu, y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2019/20 fyddai £22,568. Roedd y Panel yn dal i gredu fod yn rhaid i'r Cyngor wneud cyflog uwch ar gael i arweinydd yr wrthblaid mwyaf a phenderfynwyd y dylai rhoi cydnabyddiaeth ariannol o £22,568 i'r swydd hon.

Dywedodd y Swyddog nad oedd unrhyw newid i ad-daliad costau gofal sy'n parhau ar uchafswm o £403 y mis pan gyflwynir derbynebaw gan y gofalwr. Mae'r Panel yn annog Awdurdodau i hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd o ad-dalu costau gofal. Mae'r Panel yn cydnabod y problemau'n gysylltiedig â chyhoeddi'r traul dilys hwn, ac felly mae wedi penderfynu rhoi dau opsiwn i Awdurdodau, sef:-

- Manylion y symiau a ad-dalwyd i Aelodau a enwyd; neu
- Y cyfanswm a ad-dalwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ond nas priodolwyd i unrhyw Aelodau a enwir.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n hapus i roi cyngor ac arweiniad ar yr elfen graidd yma, ac anogodd bob Aelod i ystyried y cymorth hwn lle'n briodol.

<p>Dilynodd trafodaeth am y goblygiadau ar bolisiau yswiriant car Aelodau pan maent yn teithio gyda'i gilydd i fynychu cyfarfodydd ac yn y blaen. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol y byddai'n rhoi eglurhad ar y mater hwn.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor i argymhell derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:</p> <ul style="list-style-type: none">i. cytuno ar gynigion Panel Annibynnol Cymru ar Gynnyddiaeth Ariannol ar gyfer 2019/20 cyn i'r Cyngor llawn ei ystyried; aii. chytuno ar yr opsiwn a ffafrir ar gyfer cyhoeddi cyfanswm costau gofal, h.y. y cyfanswm a ad-dalwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ond heb ei briodoli i unrhyw Aelod a enwyd, fel y cytunwyd yn flaenorol.	<p>Rheolwr Datblygu Sefydliadol</p>
--	--